# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Mehefin 2024

Amser: 09.30 - 10.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14726

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru) |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Rheoliadau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – 17 Mai 2024

2.2 PTN 2 – Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gwynion Cod Ymddygiad: Cylch gorchwyl terfynol – 20 Mai 2024

2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes: Cylchoedd gorchwyl pwyllgorau – 22 Mai 2024

2.4 PTN 4 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwilio – 23 Mai 2024

2.5 PTN 5 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol – 23 Mai 2024

2.6 PTN 6 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid, Cynulliad Gogledd Iwerddon: Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol – 29 Mai 2024

2.7 PTN 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: gohirio cyhoeddi cyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25 – 10 Mehefin 2024

2.8 PTN 8 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a sesiwn graffu gyffredinol – 12 Mehefin 2024

2.9 PTN 9 – Llythyr gan y Trefnydd a'r Prif Chwip ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) – 31 Mai 2024

2.10 PTN 10 – Llythyr oddi wrth y Trefnydd a'r Prif Chwip: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) – 14 Mehefin 2024

**2.11 PTN 11 - Llythyr ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid: Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf hon) - 7 Mehefin 2024**

## 3 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ei ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol gan Dr Ed Poole, Uwch-ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Newidiadau i Brotocol y Gyllideb - Ymatebion gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb, a'r ymatebion a gafwyd gan Archwilio Cymru a Chomisiwn y Senedd.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar faterion yn ymwneud â Phrotocol Proses y Gyllideb a materion cyllidebol eraill, ac i anfon copi o'r llythyr at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

## 7 Ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ynghylch craffu ar y Gyllideb Ddrafft

7.1 Nododd y Pwyllgor y llythyrau a gyflwynwyd gan Bwyllgorau'r Senedd a thrafododd y materion a godwyd ynghylch eu profiadau o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, gan dynnu sylw at y farn a fynegwyd gan Bwyllgorau'r Senedd am eu profiadau o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

## 8 Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: Ymateb gan Archwilio Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Archwilio Cymru ynghylch aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a chytunwyd i ysgrifennu yn ôl i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 y mae Archwilio Cymru am iddynt gael eu dwyn ymlaen.